Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **17 Awst 2016** |
| **Amser:** | **10:05 – 11:15** |

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau</u>:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **<u>Hefyd yn Bresennol</u>:** | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **<u>Ymddiheuriadau</u>:** | Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 01/08/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2024** | **MMS i rannu Cylch Gorchwyl ar gyfer gwaith TPB gyda CM** | **Rhyddhawyd** |
| **PB 2025** | **PGC i roi amserlen o'r gwaith sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i'r CHTh** | **Cyfredol** |
| **PB 2026** | **Rhannu'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol â'r CHTh** | **Rhyddhawyd** |
| **PB 2027** | **CHTh i godi'r mater o'r broses ceisiadau arfau saethu â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda** | **Rhyddhawyd** |
| **PB 2028** | **PGC i ddiweddaru'r CHTh ar berfformiad Trwyddedu Arfau Saethu ym mis Hydref 2016** | **Cyfredol** |
| **PB 2029** | **Y PSA, y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r CA i ddatblygu achos busnes manwl mewn perthynas ag adnewyddu'r bloc llety** | **Ar waith** |
| **PB 2030** | **DBG i roi diweddariad i'r CHTh ar gynnydd yr Heddlu mewn perthynas â'r Safonau Cymraeg cyn ei gyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg** | **Ar waith** |
| **PB 2031** | **CM i ddiweddaru CHTh yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth** | **Rhyddhawyd** |
| **PB 2032** | **Dosbarthu cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n fewnol i staff cyn eu cyhoeddi ar wefan SCHTh** | **Ar waith** |

| PENDERFYNIADAU’N CODI O GYFARFOD 17/08/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o’r Penderfyniad** | **I’w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 04** | **Estyn cytundebau staff y SGC tan 31 Rhagfyr 2016 er mwyn caniatáu i’r adolygiad o drin cwynion ddod i ben** | **CM** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Awst a materion yn codi**

Nododd y CHTh ddiwygiad i eiriad cam gweithredu PB 2027, gan ddweud ei fod wedi codi’r mater â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Ystyriodd mai doeth fyddai dilyn y penderfyniad â llythyr ffurfiol er mwyn manylu’r pryderon. Dywedodd y PSA bod adborth wedi’i dderbyn gan yr adran trwyddedu arfau saethu a oedd yn nodi bod y mater yn fwy cymhleth na thybiwyd yn wreiddiol. Mae’r Swyddfa Gartref wedi gosod rheoliadau newydd, ac mae meddygon teulu’n ei chael hi’n anodd cydymffurfio â nhw. Roedd y PSA wedi paratoi gwybodaeth ar gyfer ystyriaeth CHTh, a byddai’n rhannu hynny yn dilyn y cyfarfod.

**Cam gweithredu: Anfon llythyr at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda sy’n nodi pryderon o ran trwyddedu arfau saethu**

Nododd CM bod y cofnodion yn cyfeirio at ddirwyon gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ond dim ond un ddirwy a gafwyd. Diwygiwyd y cofnodion er mwyn adlewyrchu hyn. Rhoddodd y DBG ddiweddariad ynghylch y 3 tor amodau o ran gwybodaeth a oedd yn destun ymchwiliad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Dywedodd na fyddai hyn yn arwain at ddirwyon oherwydd cydnabu bod camau gweithredu adfer a gymerwyd yn ddigonol. Dywedodd y CHTh bod hyn yn newyddion ardderchog.

PB 2022 – Dywedodd y CHTh bod cyfarfod wedi’i drefnu gyda Chadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

PB 2023 - Roedd adolygiad o’r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus (SGC) a thrin cwynion heddlu’n parhau. Dywedodd CM y byddai aelodau staff newydd yn cychwyn yn y SGC ddydd Llun ac y byddai aelod staff o Ganolfan Gyfathrebu’r Heddlu’n cychwyn ar 15 Medi fel mesurau dros dro er mwyn caniatáu i’r Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth gynnal adolygiad. Nid oedd amserlenni ar gyfer yr adolygiad wedi’u cytuno eto. Awgrymwyd y dylid darparu diweddariad ar yr adolygiad yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 28 Medi. Dywedodd CM bod y cytundebau cyfredol ar gyfer staff y SGC yn dod i ben ddiwedd Medi, a gofynnodd am i’r CHTh ystyried estyn y cytundebau am 3 mis arall er mwyn caniatáu i’r adolygiad gael ei gwblhau. Cymeradwyodd y CHTh hyn gyda chydweledydd y grŵp.

**Cam gweithredu: Darparu diweddariad ar yr adolygiad SGC yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 28 Medi**

**Penderfyniad: Estyn cytundebau staff y SGC tan 31 Rhagfyr 2016 er mwyn caniatáu i'r adolygiad o drin cwynion ddod i ben**

PB 2025 – Eglurodd y CHTh bod hyn yn ymwneud â gwaith mewn perthynas â Rheoli Troseddwyr yn Integredig, a oedd yn parhau.

PB 2026 – Dywedodd y DBG y byddai adroddiad yn cael ei ddarparu ar gyfer pob Bwrdd Atebolrwydd Heddlu'n manylu'r ceisiadau am wasanaeth a gwerth am arian y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Sicrhaodd y DBG bod yr Uwch-arolygydd Huw Meredith yn gyson adolygu ystadegau o ran defnydd, ac y byddai'r mater dal yn cael ei gynnwys yn y diweddariad gweithredol mewn cyfarfodydd Bwrdd Plismona. Dywedodd y CHTh ei fod wedi ymweld â chanolfan y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn ddiweddar fel rhan o'i gyflwyniad i'r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Cytunwyd y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi er mwyn sôn am benodiad y CHTh i'r Bwrdd.

**Cam gweithredu: Cyhoeddi datganiad i'r wasg yn sôn am aelodaeth y CHTh o'r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol**

PB 2028 – Dywedodd y DBG bod y mater wedi'i drafod yng nghyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion wythnos diwethaf, a phenderfynwyd penodi tri aelod staff dros dro yn yr adran trwyddedu arfau saethu er mwyn mynd i'r afael â'r mater tra bod adolygiad tymor hirach yn cael ei gynnal.

PB 2029 - Dywedodd EH bod gwaith manwl yn parhau, gyda synnwyr o frys gan y byddai recriwtiaid newydd yn cychwyn cyn hir. Cynhaliwyd trafodaeth fanwl, gyda EH yn sicrhau bod y cyllid yn ddichonadwy, gydag elw 5.6 blynedd am y buddsoddiad. Mynegodd y DBG bryder ynghylch diogelwch recriwtiaid, ac roedd yn awyddus i symud ymlaen â'r prosiect. Roedd y PSA wedi gofyn am gefndir manylach pellach i'r ffigurau, ac ystyriodd y pryderon a ran diogelwch a lles a ailadroddwyd angen cael eu hadlewyrchu yn yr achos busnes. Hefyd, awgrymwyd y dylid cynnwys datganiad agoriadol i fanylu nod yr achos busnes. Cydnabu CM bod y PSA dal yn ceisio sicrwydd bod y cyllid yn ddichonadwy er bod y ddau barti'n cefnogi'r cysyniad. Awgrymodd y DBG y dylid dwyn yr achos busnes i gyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar gyfer penderfyniad. Hefyd, nododd y PSA y gofyniad i ystyried y prosiect o fewn y rhaglen waith ystadau ehangach a'r effaith ar amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.

**Cam gweithredu: Achos busnes llety'r Pencadlys terfynol i'w drafod yn y Bwrdd Plismona nesaf**

PB 2030 – Mae'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi paratoi gwybodaeth a fydd yn cael ei rhoi i'r CHTh maes o law. Cadarnhawyd bod Bwrdd Iaith Gymraeg yr Heddlu'n ymgysylltu â bwrdd rhanbarthol. Nododd CM bod SCHTh wedi'i chynrychioli ar y Bwrdd

yn y gorffennol, a holodd pa un ai a ddylid ail-sefydlu hyn. Cytunodd yr aelodau, oherwydd y Cynllun Iaith ar y cyd.

**Cam gweithredu: CM i gynrychioli SCHTh ar y Bwrdd Iaith Gymraeg**

PB 2031 – Dywedodd CM ei bod hi wedi rhoi trosolwg i'r CHTh, a bod angen gwaith sylweddol i gydymffurfio â chynlluniau gweithredu'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ac AHEM. Roedd angen trafodaeth ar gyfer canfod sut allai SCHTh gefnogi'r gwaith hwn. Sicrhaodd y DBG bod cynlluniau gweithredu llawn mewn grym erbyn hyn, gyda Phrif Swyddogion yn gyfrifol am feysydd gwaith, a byddai adborth yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethu. Ystyriodd y DBG bod y cynnydd hyd yn hyn yn dda, gyda'r gwaith yn dod yn haws ei drin. Roedd gwaith yn digwydd er mwyn sefydlu strwythurau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau amlygrwydd llawn o ran llwyth gwaith.

PB 2032 – cadarnhaodd y CHTh y byddai'n briodol cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Plismona'n fewnol ac yn allanol ar yr un pryd. Mynegodd y DBG y dylid hysbysu staff hefyd pan mae cofnodion y Grŵp Prif Swyddogion a'r Bwrdd Asedau Aur yn cael eu cyhoeddi, er mwyn arddangos cynnydd o ran y penderfyniadau a wneir.

**Diweddariad y Dirprwy Brif Gwnstabl**

Darparodd y DBG drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys achos difrifol o dwyll pensiwn. Bu Rob Thomas, Ymchwilydd Ariannol, yn allweddol o ran ymchwilio i'r achos hwnnw. Holodd y CHTh ynghylch nifer y cyfeiriadau y mae HDP wedi gwneud i'r Tîm Gorfodi Atafaelu Asedau yn y Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol. Dywedodd y DBG bod gwybodaeth yn cael ei cheisio, ynghyd â chanran o'r elw troseddau sy'n dod yn ôl i HDP.

**Cam gweithredu: Y DBG i hysbysu CHTh am nifer y cyfeiriadau y mae HDP yn gwneud i'r Tîm Gorfodi Atafaelu Asedau yn y Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol**

Ceisiwyd cefnogaeth y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol 3 gwaith yn yr wythnos diwethaf. Cafwyd presenoldeb y gwasanaeth mewn dau achos, a chafodd y llall ei ganslo ar ôl munud.

Adroddodd y DBG y bu presenoldeb heddlu da yng Ngŵyl Jas Aberhonddu, heb unrhyw faterion difrifol, a bod swyddogion yn bresennol ar hyn o bryd yn Sioe Sir Benfro. Roedd paratoadau'n digwydd ar gyfer Gŵyl y Dyn Gwyrdd wythnos nesaf.

Roedd 6 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd.

Bu'r digwyddiad uwch-reolwyr, a arweiniwyd gan Helen Morgan-Howard a Paul Morris, yn llwyddiannus. Roedd pynciau a drafodwyd yn cynnwys sganio terfynlin, cydlynu a chynllunio llywodraethu corfforaethol yn y dyfodol. Byddai'r CHTh yn gysylltiedig â'r digwyddiad nesaf er mwyn trafod yr ymgynghoriad Cynllun Heddlu a Throseddu. Holodd

y PSA pa un ai a oedd y strwythurau Bwrdd Aur, Arian ac Efydd yn parhau'r un fath yn dilyn yr ymgynghoriad. Dywedodd y DBG y byddai'r strwythurau'n parhau'r un fath, ond roedd y PGC yn edrych ar resymoli rhai o'r grwpiau arian o dan y Byrddau Cyfathrebu a Gweithrediadau Aur. Roedd y CHTh yn ddiolchgar am yr ymagwedd gydweithiol a oedd yn cael ei chyflawni rhwng yr Heddlu a SCHTh mewn perthynas â threfniadau llywodraethu. Eglurwyd y byddai'r strwythur uwchben Byrddau Aur yn cael eu pennu gan y CHTh a'r PG newydd ar ôl ei benodi. Cododd CM yr angen ar gyfer sefydlu sut y mae SCHTh yn cael ei chynrychioli ar y Byrddau. Roedd y DBG yn hapus i gynnwys SCHTh, ond dywedodd fod angen cynnal "coridor di-haint" er mwyn diogelu gwybodaeth sensitif megis ymgyrchoedd cudd a Safonau Proffesiynol. Cytunodd y CHTh â hyn.

Dywedodd y DBG bod digwyddiad ar gyfer ymgysylltu â Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'i drefnu ar gyfer 7 Medi a gwahoddodd y CHTh i fynychu a chefnogi. Cadarnhawyd nad oedd y CHTh ar gael oherwydd cyfweliadau ar gyfer y swydd PG ond cytunwyd y byddai'r CHTh yn recordio podlediad i'w ddefnyddio yn y cyfarfod.

**Cam gweithredu: Y CHTh i recordio podlediad i'w ddefnyddio yn y digwyddiad ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar 7 Medi**

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y CHTh bod y broses o recriwtio PG newydd yn mynd rhagddo, gyda pheth diddordeb mewnol wedi'i dderbyn. Diolchodd y CHTh i'w swyddfa, yn arbennig CM, am y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn.

Dywedodd y CHTh ei fod wedi ailstrwythuro ei swyddfa, gyda rhai swyddi i'w hysbysebu a pheth trosiant o ran staff.

Dywedodd CM bod y Panel Heddlu a Throseddu'n hysbysebu ar gyfer aelodau annibynnol newydd ar hyn o bryd, a bod y Cadeirydd presennol, Andy Edwards, wedi cadarnhau na fyddai'n rhoi ei hun ymlaen ar gyfer tymor arall mewn swydd. Dywedodd y CHTh bod gwaith Mr Edwards o ran y cyfnod blaenorol yn amhrisiadwy gyda'i gyfoeth o wybodaeth a phrofiad. Roedd y CHTh yn deall penderfyniad Mr Edwards, ond roedd yn bersonol siomedig y byddai'n camu i lawr.

Roedd ymgynghori'n digwydd ar gyfer Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, drwy'r Sioe Frenhinol a Sioe Sir Benfro, arolwg ar-lein, ymgynghori â staff a phartneriaid, a chyfres o frecwastau buses yn ystod wythnos busnesau bach.

Dywedodd y DBG bod angen i strwythurau llywodraethu'r heddlu ddilyn y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, ac ni fyddai'r rhain yn cael eu symud ymlaen hyd nes y bydd y Cynllun wedi'i gadarnhau. Cytunwyd y byddai amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun yn cael ei rannu â'r Heddlu.

**Cam Gweithredu: SCHTh i rannu amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu â'r Heddlu**

Dywedodd y CHTh y byddai'r asesiad strategol yn cael ei gynnwys yn y Cynllun, a dywedodd y DBG bod seminar wedi'i drefnu er mwyn i uwch reolwyr drafod yr asesiad strategol. Dywedodd EH bod llawer o waith wedi'i gyflawni hefyd mewn perthynas â'r Strategaeth Plismona Strategol, a fyddai hefyd angen ei ystyried.

## Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol

Dywedodd y PSA mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer y Gronfa Drawsnewid oedd 2 Medi. Roedd gwaith yn cael ei gydlynu gan y Rheolwr Ariannu Allanol a'r DBG. Awgrymodd y PSA bod yr amserlenni tynn yn profi'n her ar gyfer pob heddlu oherwydd byddai angen cwblhau'r prosiectau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Awgrymodd y DBG y byddai'n ddefnyddiol datblygu cynigion drwy gydol y flwyddyn mewn parodrwydd ar gyfer agor ceisiadau. Cytunodd y PSA bod hyn yn syniad da, fodd bynnag, ni fu'n bosibl gwneud hynny'r tro hwn oherwydd roedd y gronfa'n ychwanegyn annisgwyl ar ben y broses ymgeisio Cronfa Arloesedd.

## Diweddariadau

### *Materion ystadau – trefniadau'r ddalfa*

Dywedodd EH bod yr astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer dalfa ar y cyd rhwng HDP a Heddlu De Cymru wedi'i gwblhau. Roedd yr astudiaeth yn cadarnhau bod y cynnig yn ddichonadwy ac yn cyflwyno'r posibilrwydd ar gyfer arbedion sylweddol. Dywedodd EH y byddai'r astudiaeth lawn yn cael ei chyflwyno i'r Prif Gwnstabliaid perthnasol cyn trafod yng nghyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Nododd y DBG bod angen ystyried yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau dalfa megis Oedolion Priodol. Dywedodd y CHTh y byddai hyn hefyd yn wir ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Roedd hi'n dda gan y PSA glywed bod y mater yn mynd rhagddo ac ystyriodd bod y datblygiadau'n hollbwysig o ran deall yr oblygiadau ar waith adferol cyfredol a gyflawnir yng ngorsaf heddlu Aberhonddu.

### *Anghenion plismona yn Sir Benfro yn y dyfodol*

Dywedodd y PSA bod gorsafoedd Doc Penfro ac Aberdaugleddau mewn cyflwr gwael iawn. Roedd hi'n deall bod canlyniadau adolygiad o anghenion plismona yn Sir Benfro ar fin cael eu cyhoeddi er mwyn penderfynu ar ofynion o ran cyfleusterau yn y dyfodol. Roedd y DBG yn ystyried bod hyn yn rhan o'r gwaith galw ac adolygiad bro. Dywedodd y DBG y byddai'r PGC yn medru darparu diweddariad ar y mater. Roedd y CHTh yn ystyried bod y mater hwn yn un pwysig oherwydd roedd y CHTh wedi trafod cyfleoedd ar

gyfer cyd-leoli â Chyngor Sir Penfro. Roedd y PSA wedi gofyn am gadarnhad o ran amserlenni ar gyfer yr adolygiad gan y byddai oedi o ran penderfynu'n costio arian, er mai dim ond gwaith hanfodol sy'n cael ei gynnal. Er enghraifft, roedd y bwyler yn Noc Penfro mewn cyflwr difrifol ac roedd angen gwerth £100,000 o waith arno.

**Cam Gweithredu: Y DBG i roi diweddariad ar anghenion plismona Sir Benfro yn y cyfarfod nesaf**

**Unrhyw Fusnes Arall**

Dywedodd y DBG ei bod hi dal yn lobio mewn perthynas â phryderon ynghylch ariannu ar gyfer porthladdoedd, a byddai'n cwrdd â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a Chydlynydd Cenedlaethol yr Adran Arbennig ddydd Gwener.

Holodd y PSA ynghylch canlyniad cynnig Materion Terfysgaeth a Materion Cysylltiedig Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yn y porthladdoedd. Cytunodd y DBG i roi gwybod i'r PSA.

**Cam Gweithredu: Y DBG i gadarnhau canlyniad cynnig Materion Terfysgaeth a Materion Cysylltiedig Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yn y porthladdoedd**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 17/08/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2033** | **Anfon llythyr at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda sy'n nodi pryderon o ran trwyddedu arfau saethu** | **PSA** |
| **PB 2034** | **Darparu diweddariad ar yr adolygiad SGC yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 28 Medi** | **CM** |
| **PB 2035** | **Cyhoeddi datganiad i'r wasg yn sôn am aelodaeth y CHTh o'r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol** | **CM** |
| **PB 2036** | **Achos busnes llety'r Pencadlys terfynol i'w drafod yn y Bwrdd Plismona nesaf** | **EH** |
| **PB 2037** | **CM i gynrychioli SCHTh ar y Bwrdd Iaith Gymraeg** | **CM** |
| **PB 2038** | **Y DBG i hysbysu CHTh am nifer y cyfeiriadau y mae HDP yn gwneud i'r Tîm Gorfodi Atafaelu Asedau yn y Tîm Adfer Asedau Rhanbarthol** | **DBG** |
| **PB 2039** | **Y CHTh i recordio podlediad i'w ddefnyddio yn y digwyddiad ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar 7 Medi** | **SCHTh** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2040** | **SCHTh i rannu amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu â'r Heddlu** | **SCHTh** |
| **PB 2041** | **Y DBG i roi diweddariad ar anghenion plismona Sir Benfro yn y cyfarfod nesaf** | **PGC** |
| **PB 2042** | **Y DBG i gadarnhau canlyniad cynnig Materion Terfysgaeth a Materion Cysylltiedig Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yn y porthladdoedd** | **DBG** |